## ATODLEN 2

Rheoliadau 7 ac 8

## Y TRAMGWYDD O BEIDIO Â CHADW CI AR DENNYN A FFURF Y GORCHYMYN

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), bydd yn dramgwydd wrth fod â chyfrifoldeb dros gi ar dir y mae gorchymyn rheoli cŵn (a ddisgrifir fel "Gorchymyn Cŵn ar Dennyn" yn y ffurf a osodir isod) yn gymwys iddo, i beidio â chadw'r ci ar dennyn neu ar dennyn â'i hyd ar y mwyaf wedi'i ragnodi yn y gorchymyn, yn ystod amserau neu gyfnodau o'r fath ag a gaiff eu rhagnodi.

(2) Nid oes tramgwydd yn cael ei gyflawni pan fo gan berson esgus rhesymol dros fethu â chadw'r ci ar dennyn, neu os yw perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

**2** Mewn unrhyw Orchymyn Cadw Cŵn ar Dennyn rhaid gosod y tramgwydd o beidio â chadw ci ar dennyn i lawr yn llawn fel y'i datgenir yn erthygl 3 yn ffurf y gorchymyn a roddir isod.

**3** Ym mhob dim arall, rhaid i Orchymyn Cadw Cŵn ar Dennyn sy'n darparu ar gyfer y tramgwydd hwnnw fod yn y ffurf a roddir isod, neu mewn ffurf sy'n sylweddol gyfatebol.

*Ffurf y Gorchymyn*

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 (OS 2007/702 (W.59)

Gorchymyn Cŵn ar Dennyn ([X](**1**)) [X](**2**)

Mae [X] (**3**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar [X](**4**).

**2** Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn [Yr Atodlen] [Atodlen 1](**5**).

### Y Tramgwydd

**3.**—(1) Bydd person sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o dramgwydd [ar unrhyw adeg][yn ystod yr [amserau] [cyfnodau] a bennir yn Atodlen 2](**6**), ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, os na fydd y person hwnnw yn cadw'r ci ar dennyn [heb fod yn hwy na [X o centimetrau / o fetrau](**7**),oni bai—

(a) bod gan y person hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu berson neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r person hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) At ddibenion yr erthygl hon cymerir bod person y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg onid oes rhyw berson arall â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar yr adeg honno;

### Y Gosb

**4**

(**1**) Dynoder, yn benodol neu'n gyffredinol, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
(**2**) Mewnosoder blwyddyn gwneud y Gorchymyn.
(**3**) Mewnosoder enw'r awdurdod cyntaf neu'r awdurdod eilyddol sy'n gwneud y Gorchymyn.
(**4**) Mewnosoder y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym arno, sef o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y Gorchymyn.
(**5**) Penner pa un sy'n berthnasol.
(**6**) Penner pa rai bynnag o'r opsiynau mewn cromfachau sgwar sy'n gymwys.
(**7**) Os yw hyn i gael ei bennu, mewnosoder uchafswm hyd y tennyn.

Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol

[Dyddiad]

[Cymal ardystio]

[ATODLEN] [ATODLEN 1](**8**)

[Manyleb/disgrifiad o'r tir, neu'r tiroedd, y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo neu iddynt](**9**)

[ATODLEN 2

[Manyleb o'r amserau neu'r cyfnodau pan fydd y tramgwydd yn gymwys]](**10**)

(**8**) Penner pa un sy'n berthnasol.
(**9**) Dynoder, naill ai'n benodol neu drwy ddisgrifiad, y tir y mae'r Gorchymyn yn gymwys iddo.
(**10**) Os yw'n gymwys, cynhwyser Atodlen 2 yn pennu amserau neu gyfnodau.